“A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod, a chyfiawnder, a barn;”
(Ioan 16:8)

Mae Iesu’n paratoi ei ddisgyblion ar gyfer ei ymadawiad oddi wrthynt. Mae newydd ddweud wrthynt y bydd pobl yn eu gwrthwynebu ac yn eu herlid. Yn y geiriau uchod mae Iesu’n calonogi ei ddisgyblion trwy sôn am ddyfodiad yr Ysbryd Glân a fyddai’n argyhoeddi nifer o’u herlidwyr ac yn eu harwain at y Gwaredwr.

Argyhoeddi

Mae dwy elfen i ystyr y gair a gyfieithir ‘argyhoeddi’ yn yr adnod yma. Ceir y syniad o gael ein perswadio o rywbeth neu’i gilydd, nes ein bod yn argyhoeddedig ei fod yn wir. Mae ystyr arall hefyd, ystyr mwy cyfreithiol, lle mae rhywun yn cael ei ddyfarnu. Yn y cyd-destun yma, mae person yn cael ei ddyfarnu’n euog gerbron Duw. Gwaith yr Ysbryd Glân yw dangos dyfarniad Duw arnom, ein bod yn euog gerbron llys y nef, a’n gwneud yn argyhoeddedig ein bod yn bechaduriaid hefyd. Dyma’r gwaith sydd yn arwain pobl i geisio maddeuant a gras Duw yn Iesu Grist.

Pechod

Mae’r Ysbryd Glân yn cyffwrdd â chalon person i’w berswadio o’u bechod gerbron Duw. Mae’n dangos iddo rywfaint o lygredd, ffolineb a bai ei bechod. Dyma’r ‘dystiolaeth’ mae’n defnyddio i’w argyhoeddi. Mae’n ei arwain i deimlo’i bechadurusrwydd a’i gyffesu. Dyma arweiniodd Paul i ddweud: **“Daeth Crist Iesu i’r byd i achub pechaduriaid. A minnau yw’r blaenaf ohonynt”** (1 Tim. 1:15). Roedd wedi dod i sylweddoli ei bechod yn gwrthwynebu Crist a’i ddilynwyr ar ôl ei brofiad ar y ffordd i Ddamascus.

Y ddadl arbennig y mae’r Eiriolwr Arall yn ei defnyddio yw nad yw pobl yn credu yng Nghrist. Dyma’r pechod sydd yn dal pobl mewn pechod. Dyma’r pechod fydd yn ein damnio, os byddwn yn parhau ynddo.

Cyfiawnder

Mae’r Diddanydd yn argyhoeddi pobl o gyfiawnder **‘Iesu Grist y cyfiawn’**. Er iddo gael ei gam-drin a’i wrthod a’i groeshoelio gan ddynion, roedd Iesu’n gyfiawn yng ngolwg Duw. Daeth llais o’r nef yn ei gymeradwyo. Deallodd canwriad wrth ei groes hyn, ar ôl ei weld a’i glywed yn ei wendid ac ‘ar ei waethaf’: **“Pan welodd y canwriad yr hyn oedd wedi digwydd, dechreuodd ogoneddu Duw gan ddweud, ‘Yn wir, dyn cyfiawn oedd hwn”** (Luc 23:46).

Dadl yr Ysbryd i brofi hyn yw ymadawiad Crist. Er iddo gael ei wrthod gan y byd, fe’i croesawyd gartref gan y Tad, trwy’r groes a arweiniodd at y

goron.

Mae'r ddeddf o dan ei choron,
cyfiawnder yn dweud, "Digon"
a'r Tad yn gweiddi, "Bodlon"
yn yr lawn;
a "Diolch byth," medd Seion,
am yr lawn. (Gwilym Cyfeiliog)

Trwy gyfrwng yr atgyfodiad, byddai'r Tad yn gosod sêl ei fodlonrwydd ar ei fywyd a'i waith gwaredigol. Byddai'r esgyniad yn gyhoeddiad nefol o'i gyfiawnder, er i'r byd ei labelu'n 'droseddwr'.

Barn

Mae barn yn golygu nad oes dianc rhag canlyniadau pechod a gwrthryfel yn erbyn Duw. Dadl yr Ysbryd Sanctaidd yw colled y diafol. Fe gododd 'tywysog y byd hwn' mewn gwrthryfel mawr yn erbyn Duw ac yn erbyn Crist. Er hynny, mae wedi ei farnu. Cafodd ei drechu gan Grist yn y temtiad blin yn yr anialwch.

Cafodd ei fwrw allan o unigolion, yr oedd yn eu dinistrio, fel y gŵr o Gadara neu'r bachgen ifanc wrth droed mynydd y Gweddnewidiad. Cafodd ei fwrw allan gan Grist ei hun, a chan ei ddisgyblion, yn enw Crist. Cafodd ei farnu wrth i Grist godi'n fuddugoliaethus o'r bedd i goncro marwolaeth a phechod ac uffern. Mae'n cael ei farnu wrth i bobl ddod i gredu yng Nghrist a dod **"o awdurdod Satan at Dduw."** Caiff ei farnu'n derfynol yn niwedd yr amser: **"a bwriwyd y diafol, twyllwr y cenhedloedd, i'r llyn tân a brwmstan, lle mae'r bwystfil hefyd a'r gau broffwyd"** (Dat. 20:10).

Pentecost

Dechreuwyd cyflawni'r geiriau proffwydol hyn ar ddydd y Pentecost. Beth oedd canlyniad dyfodiad yr Ysbryd â nerth? Cyhoeddodd Pedr bechod y bobl yn gwrthod ac yn lladd Iesu, Sanct Duw. Serch hynny, fe'i codwyd ac fe'i derbyniwyd gan Dduw. Yna mae'n dyfynnu Salm 110 sydd yn darlunio'r Meseia fel Brenin buddugoliaethus a'i elynion yn droedfainc i'w draed.

O ganlyniad, pigwyd y gwrandawyr yn eu calonnau, daethant i ofyn am help i droi at Grist, a daeth tair mil yn ddisgyblion iddo, a nifer o'r rheini wedi bod yn erlidwyr ac yn elynion gynt.

Heddiw

Efallai ein bod ni'n poeni heddiw am wrthwynebiad cynyddol i'r Ffydd. Gadewch i ni weddïo eto am dywalltiad o'r Ysbryd Glân i argyhoeddi pobl o bechod, cyfiawnder a barn, ac i arwain llawer i gofleidio'r Gwaredwr, a'r bywyd tragwyddol sydd ganddo ar eu cyfer.